# Cofnodion Cyfarfod 2/10/2025

**Presennol:** Cyng Dilys Evans, Eifion Roberts, Rhys Evans, Huw Symonds, Fiona Hopkins, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng Moira Mai, Ken Edwards, Eluned Jones, Jacqueline Allen a Sion McGuiness.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Dilys Evans, ac fe fynegwyd cydymdeimlad aelodau'r cyngor gyda Eluned Jones yn ei phrofedigaeth ddiweddar o golli chwaer yng nghyfraith. Hefyd llongyfarchwyd Fiona Hopkins a Dilwyn Morgan ar gymryd rhan yn y Triathlon yn ddiweddar. Diolchwyd i'r Cyng Rhys Evans am roi gair o groeso ar ran y Cyngor Tref yng nghyngerdd Cor Estonia yn Eglwys Crist.
2. **Buddiant:** Datganwyd buddiant gan y Cyng Eifion Roberts yng nghais cynllunio Ysgol Godre'r Berwyn.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 4/9/25.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**
    i. Ymddiswyddiad y Cyng Eric Williams: Cytunwyd i wneud trefniadau i lenwi'r sedd wag trwy hysbysebu'r cyfle i alw etholiad.
    ii. Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd: Cafwyd neges gan y swyddog ieuenctid lleol yn holi am waith addas i griw o ieuenctid lleol. Awgrymwyd y gellid gofyn iddynt wneud gwaith cynnal a chadw ar Ffynnon Beuno ac ar focsys blodau'r dref.
    iii. Grant Gwynedd Ni: Rhoddwyd adroddiad ar y gwaith o osod raciau beics a bocsys blodau ychwanegol i'r dref, a nodwyd fod sgyrsiau wedi bod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd a bod cyfarfodydd wedi eu trefnu gyda swyddogion y Coop a NMWTRA.
    iv. Trefniadau parcio ger Llyn Tegid: Derbyniwyd neges gan Barc Cenedlaethol Eryri yn gwneud cais i ddod i gyfarfod y Cyngor Tref fis Tachwedd. Cytunwyd i dderbyn eu cynnig.
    v. Gweithdy Arwyddion y Bala: Rhoddwyd adroddiad gan y Cyng Fiona Hopkins pryd y nodwyd fod ymgynghorwyr yn gweithio ar gynllun i gyflwyno arwyddion newydd i'r Bala.

vi. Gwaith celf y Bala: Adroddwyd fod sgyrsiau cadarnhaol wedi eu cael ar y bwriad o gyflwyno celf gyhoeddus i'r dref.

vii. Bwrdd Gwybodaeth Taith Mary Jones: Adroddwyd fod Cymdeithas y Beibl yn gweithio ar gynllun i adnewyddu'r bwrdd gwybodaeth ar y Stryd Fawr.

viii. Triathlon y Bala: Cafwyd adroddiad ar y digwyddiad gan drefnwyr y Triathlon, ynghyd â chyfle i roi adborth ar y digwyddiad. Cytunwyd fod y Triathlon yn dod a buddion i'r dref, ond y dylid gwneud pob ymdrech i leihau cyfnod cau'r A494.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan, a dywedodd ei fod yn gweithio hefo swyddogion Cyngor Gwynedd ar y bwriad o ail gyflwyno llinellau melyn dwbl mewn rhai ardaloedd yn y dref. Cafwyd trafodaeth ar y problemau parcio ar adegau prysur ger y Clwb Rygbi, a'r angen i rwystro cerbydau rhag parcio ar y ddwy ochr i'r ffordd.

6. **Is-bwyllgorau:**

**Is bwyllgor Tref Gyfeillgar, Adnoddau a'r Nadolig:** Adroddwyd fod trefniadau ar y gweill i archebu goleuadau Nadolig ychwanegol.

**Is bwyllgor Cyllid:** Cytunwyd i'r Is bwyllgor Cyllid gyfarfod am 6.15pm ar Dachwedd 6ed i ystyried cyfrifon y cyngor am 6 mis cyntaf y flwyddyn ariannol.

**Is bwyllgor Cynllun Creu Lle:** Adroddwyd fod gwaith y cynllun Gwynedd Ni yn symud yn ei flaen.

**Is Bwyllgor Bioamrywiaeth:** Nodwyd derbyn gwybodaeth am Dim Bioamrywiaeth Un Llais Cymru – y clerc i anfon y wybodaeth ymlaen i'r Cyng Fiona Hopkins.

**Is Bwyllgor Twristiaeth Gynaliadwy:** Adroddwyd fod Grŵp Twristiaeth y Bala yn cael ei ail sefydlu, hyn fel grŵp annibynnol o'r Cyngor Tref.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

**Grŵp Busnesau'r Bala:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Rhys Evans ar waith y grŵp, hyn yn cynnwys trefniadau Noson Siopa Hwyr y Bala.

**Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod y gwaith pellach ar Ganolfan Bro Tegid ar fin cychwyn, a bod y cwmni wedi llwyddo gyda chais pellach am gyllid i gyflwyno Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol i'r Bala.

7. **Materion Cynllunio**: Derbyniwyd cais cynllunio i greu ardal storio, ymestyn ffens bresennol, ffurfio llawr caled a chodi dau loches yn Ysgol Godre'r Berwyn. Cytunwyd i gefnogi'r cais.

*8.* **Materion Cyllid:**

**i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £14,820.66 yn y cyfri cyfredol, £37,164.00 yn y cyfri cadw a £618.20 yng Nghronfa'r Maer ddiwedd Medi.

**ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, cyflog y Clerc, ac anfoneb am waith cynnal a chadw Tomen y Bala.

**9. Gohebiaeth:**

i) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth y bydd ffordd Craig y Fron yn cau dros dro ar gyfer gwaith hanfodol ddiwedd Hydref.

ii) Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth fod y Gynhadledd Flynyddol wedi ei chanslo.

iii) Partneriaeth Natur Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am brosiect Cymunedau Gwyrdd Gwynedd.

iv) Fferm Wynt Gaerwen: Derbyniwyd gwybodaeth am y dulliau o gyflwyno sylwadau ar y bwriad o greu'r fferm wynt.

10. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**

i) Derbyniwyd rhai sylwadau ar waith Canolfan Hamdden Penllyn, ac fe gytunwyd i anfon y sylwadau ymlaen i reolwyr y ganolfan.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 6 Tachwedd 2025.



ARWYDDWYD........................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)